Adolygiad Cymunedol 2013

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

## CRYNODEB O'R CYFLWYNIADAU

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Peter Bradbury<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Caerau | Caerau |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim Newid: Hoffwn ddatgan nad wyf yn credu bod angen newidiadau yn fy ward; yn wir, credaf y gellid bod angen cynghorydd ychwanegol cyn bo hir gydag etholaeth o dros 7500. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Elaine Simmons<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros y Caerau | Caerau |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Y Rhath |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Rhiwbeina |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Mae fy nhri chynghorydd eisoes yn delio ag ymholiadau a phroblemau ar ran 6,800 a mwy o etholwyr; byddai ehangu neu estyn y ffiniau presennol yn golygu gwasanaeth llai effeithlon – ymatebion wedi'u glastwreiddio ac ati. Mae gennym ffiniau daearyddol hefyd, h.y. Eastern Ave. – dwyrain; Mynydd Wenallt - gogledd. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ed Bridges<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Gabalfa | Gabalfa<br>Cathays |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Argymhelliad 1 - Creu cymuned newydd Talybont seiliedig ar neuaddau Gogledd Talybont a De Talybont yn ward Gabalfa a Llys Talybont o fewn ward Cathays. Byddai'r newid hwn ... yn rhesymegol yn uno un gymuned holistig yn yr un adran bleidleisio, ward ac etholaeth gan atal llawer iawn o ddryswch.

Argymhelliad 2 – ailenwi cymuned Gabalfa yn Maendy
Ar hyn o bryd, ychydig iawn o drigolion ward Gabalfa sy'n dweud eu bod yn byw yng Ngabalfa - mae'r rhan fwyaf yn credu'n gyfeiliornus eu bod yn byw yn Cathays, Mynachdy, y Mynydd Bychan neu Maendy, gan mai dyma gyfeiriadau post hanesyddol y rhannau hynny o'r ward. Ar y llaw arall, tybir bod Gabalfa'n cyfeirio at stad gyfagos Gabalfa (yn ward Ystum Taf).

Mae hyn yn amlwg yn achosi problemau, gyda thrigolion Gabalfa'n tybio eu bod yn byw yn y wardiau nesaf atynt … Mae Canolfan Hamdden Maendy gerllaw yn adeilad lleol amlwg, a gellid dadlau ei bod yn label gywirach i'n hardal na Gabalfa.

Ar wahân i'r awgrymiadau hyn, ni welaf unrhyw angen i newid y ffiniau cymunedol presennol yn achos ward Gabalfa.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gareth Holden<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Gabalfa | Gabalfa<br>Cathays |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol.

| Gan | Cymuned |
| --- | --- |
| Unigolyn | Gabalfa<br>Cathays |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol. | |

| Gan | Cymuned |
| --- | --- |
| Unigolyn | Gabalfa<br>Cathays |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol. | |

| Gan | Cymuned |
| --- | --- |
| Unigolyn | Gabalfa |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol. | |

| Gan | Cymuned |
| --- | --- |
| Y Cynghorydd Gareth Aubrey<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Ystum Taf | Gabalfa<br>Cathays |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Gabalfa<br>Cathays |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Gabalfa<br>Cathays |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol ynglŷn â chreu cymuned newydd Talybont.<br><br>O ran enw ward Gabalfa nid wyf mor sicr a fyddai ei henwi'n Maendy yn fwy perthnasol mewn gwirionedd na Gabalfa er, o ystyried lleoliad y barics a'r ganolfan hamdden, mae'r enw Maendy yn canu cloch yn y rhan honno o'r ward. Fy awgrym gorau i fyddai cyfuniad, h.y. Maendy a Gabalfa | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd (Cymuned) Sue McKerlich | Radur a Threforgan – Pob ward |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Oherwydd y nodweddion daearyddol – afon, rheilffordd, bryniau a phrif ffyrdd byddai'n anodd ei hollti ac mae'n rhy fawr i'w hychwanegu at ardal arall. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Pontprennau<br>Pentref Llaneirwg |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd (Cymuned) Brian Griffiths | Tongwynlais |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: …, mae'r cyngor yn ddigonol i'r gymuned. Mae aelodau'n cynrychioli pob rhan o'r pentref. Rhedir y cyngor ar sail anwleidyddol …. Yn ystod y 34 o flynyddoedd rydym wedi cynyddu'r aelodaeth o 5 i 9, mae hyn yn gweithio'n eithriadol o dda, mae'r cyngor wedi mynd i'r afael â nifer o faterion cymunedol … ar y cyfan mae'r cyngor yn griw prysur ac adeiladol iawn sy'n gweithio'n dda gyda'r gymuned, mae'r holl aelodau'n adnabyddus yn y gymuned, nid wyf yn credu bod unrhyw angen newid. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Llandaf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Teimlaf fod ffiniau/ cyfansoddiad y ward yn gynrychioladol o'm cymuned leol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Rod McKerlich<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Radur a Threforgan | Radur a Threforgan – Pob ward |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: mae Radur a Threforgan yn gymuned sylweddol â thros 5,000 o etholwyr. Mae yma ysbryd cymunedol a hunaniaeth gref; mae'n unfath. Am y rhesymau hyn rwy'n cefnogi'r sefyllfa bresennol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Cyncoed |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid. | |

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Plaid Lafur Tre-biwt | Tre-biwt |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Mae ffiniau Tre-biwt yn foddhaol ac yn dilyn ffiniau naturiol i raddau helaeth.<br>Fodd bynnag, mae Tre-biwt yn dal yn druenus o brin o ran cynrychiolaeth wleidyddol. Ni welwn fawr o ddadl dros unioni hyn drwy sefydlu Cyngor Cymuned gan mor ddifrifol yw'r diffyg cynrychiolaeth. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Tredelerch<br>Trowbridge |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: Mae ardal fechan o ryw 30 o dai [ardal The Avenue/Westbourne Court] yn agos at gyffordd New Road a Wentloog Road sydd ar hyn o bryd yn ward Trowbridge. Mae'r tai hyn oddeutu milltir i ffwrdd o'r eiddo agosaf yn Trowbridge ac wedi'u hamgylchynu gan ward Tredelerch. Fy marn i yw y dylai'r tai hyn fod yn ward Tredelerch, ac nid ward Trowbridge. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Trelái |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: Cynigiaf y dylid rhannu cymuned Trelái yn 2 gymuned, Trelái a chymuned newydd Llanfihangel-ar-Elái. Y ffin rhwng y ddwy gymuned fyddai Michaelston Road.<br>Mae ardal Llanfihangel yn gymuned ar wahân gan fod ganddi ei thafarn, ei swyddfa bost a'i siopau lleol ei hun. Dim ond iawn felly yw y dylai'r Cyngor ei thrin yn swyddogol felly. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Sain Ffagan |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: Un ward fawr yw cymuned Sain Ffagan ar hyn o bryd. Fy marn i yw bod y ddwy ardal yng nghymuned Sain Ffagan yn wahanol ac ar wahân i'w gilydd.<br>Er nad oes gennyf broblem gyda chadw'r ddwy ardal hon o fewn cymuned Sain Ffagan, credaf y dylai'r cyngor cymuned gael dwy ward cymuned - Gogledd Sain Ffagan a De Sain Ffagan. Byddai'r afon yn ffin rhwng y ddwy. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cyng Adrian Robson<br>Y Cyng Jayne Cowan<br>Y Cyng Eleanor Sanders<br>Cynghorwyr Cyngor Caerdydd dros Riwbeina | Rhiwbeina |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: Credaf fod ffiniau presennol Rhiwbeina'n gwasanaethu'r gymuned a'r etholaeth yn dda. Fodd bynnag, hoffwn ofyn am newid enw'r gymuned i adlewyrchu'r ffaith fod gan Bantmawr (rhan o gymuned Rhiwbeina) hunaniaeth glir sy'n bwysig ac yn wahanol i weddill Rhiwbeina.<br>Er na chredaf fod Pantmawr yn ddigon mawr i fod yn gymuned ar wahân, credaf y dylid ei adlewyrchu yn enw'r gymuned bresennol.<br>Felly hoffwn gynnig newid enw cymuned "Rhiwbeina" i un o ddau ddewis: naill ai "Rhiwbeina a Phantmawr" neu "Riwbeina gyda Phantmawr". Y gobaith yw y byddai enw swyddogol yr adran etholiadol yn newid wedyn. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Rhiwbeina |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Cefnogi barn y cyflwyniad blaenorol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Unigolyn | Radur a Threforgan – Pob ward |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: … Ni welaf angen am newidiadau i ffiniau'r cymunedau, sydd yn ardal ar wahân rhwng Afon Taf, yr A4119, a'r chwarel. Mae hen hanes i'r pentrefi fel y gwelir yn ôl ein safleoedd hynafol yng nghoed Treforgan a Radur.<br>Mae gan y gymuned ei chymeriad ei hun ac mae'n ymdrechu'n galed i gymathu'r rhai sydd wedi ymuno â hi o bron 1,000 o dai newydd yn y 10 mlynedd diwethaf a'u hannog i gyfrannu ... mae'r pwerau newydd, yn arbennig o ran lles, y gall cynghorau cymuned ymgymryd â hwy yn y dyfodol yn ddigonol i sicrhau cynrychiolaeth gref ar bob lefel o lywodraeth.<br><br>Mae'r 12 aelod CC sydd gennym yn awr yn cynrychioli amrediad o fuddiannau gyda phrofiad ac arbenigedd amrywiol. Ni welaf ddim rheswm dros newid hynny o ystyried ein hagwedd flaengar a'n polisïau o sicrhau cyfranogiad cymunedol.<br>Er mai mewn het bersonol rwy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn, wedi derbyn y dogfennau'n uniongyrchol, mae'n seiliedig yn rhannol ar sylwadau aelodau CC RaTh ar y pryd pan drafodwyd y newidiadau i'r ffiniau ddiwethaf. | |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Unigolyn | Pob cymuned |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: O ystyried maint Caerdydd dylid ffurfio Cynghorau Cymuned ychwanegol cyn gynted ag y bo modd. Mae gennym siarter a dylid gwneud pob ymdrech i'w gweithredu'n llawn heb oedi fel bod pobl yn cael llais. Nid yw'r gymuned wedi'i chynrychioli'n llawn: gyda dim ond 6 Chyngor Cymuned does dim cryfder mewn dyfnder ac maent yn dioddef o ganlyniad. Cynllunio lleol yw'r broblem amlwg a dim ond modd i gael maen i'r wal yw ymgyngoriadau heb fod CDLl yn ei le. | |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Y Cynghorydd (Cymuned) Susan Chedzoy | Rhydlafar (Sain Ffagan) |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: I sicrhau bod llywodraeth y gymuned yn adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r gymuned a'i bod yn effeithiol ac yn gyfleus. | |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|

| Cyngor Cymuned Sain Ffagan | Sain Ffagan |
|---|---|
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: … mae Cyngor Cymuned Sain Ffagan:<br>- yn fodlon â'r ffiniau presennol a does ganddo ddim dymuniad i gynnig eu newid o gwbl;<br>- yn dymuno cadw enw Cyngor Cymuned Sain Ffagan;<br>- yn fodlon â'r trefniadau etholiadol ac o'r farn fod y nifer bresennol o Gynghorwyr (9) yn ddigonol;<br>- heb unrhyw awydd i gael ei grwpio â chymuned arall. | |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Dianne Elizabeth Rees<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Bontprennau a Phentref Llaneirwg | Pentref Llaneirwg |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: Cynigiaf ddau newid bach i ffin Pentref Llaneirwg.<br>1. Cynnwys safle Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg o fewn y ffin. Wedyn gellid darparu mynedfa i gerddwyr i'r llain werdd nesaf at Heol Casnewydd. Yr ysgol hon yw ysgol gymuned Pentref Llaneirwg ac eto ar hyn o bryd mae wedi'i lleoli yng nghymuned Llanrhymni.<br>2. Yn ystod yr adolygiad cymunedau diwethaf a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau, cafodd Kenneth Treasure Court ei gynnwys o fewn ffin Cyngor Cymuned Pentref Llaneirwg. Pleidleisiodd trigolion Kenneth Treasure Court yn etholiadau'r cyngor cymuned fel trigolion Pentref Llaneirwg ond cawsant bapurau pleidleisio ar gyfer etholiadau'r cyngor sir fel trigolion Ward Trowbridge a Llaneirwg er bod y ddau etholiad wedi'u cynnal ar yr un dydd. Dylid eu cynnwys yn ward cyngor sir Pontprennau a Phentref Llaneirwg. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Rhiwbeina |

*Crynodeb o’r Cyflwyniad:*
Newid: Fy nghais yw y dylid newid enw ward Rhiwbeina i "Riwbeina a Phantmawr" am y rhesymau a ganlyn.
Mae Pantmawr yn gymuned o ryw 1000 o bobl wedi’i lleoli ar ben gogleddol Ward Rhiwbeina Cyngor Caerdydd. Yn union i’r gogledd iddi ceir trafordd yr M4; i’r gorllewin iddi y tu hwnt i Fynwent Pantmawr mae cefnffordd ddeuol yr A470; i’r de iddi mae Cwrs Golff yr Eglwys Newydd ac i’r dwyrain mae caeau sy’n cynnwys Heneb y Twmpath. Felly ar wahân i’r rhuban o ddatblygiad ar Riw Rhiwbeina mae’n gwbl ar wahân i rannau eraill o Gaerdydd.
Mewn gwirionedd mae’n rhan o Blwyf Eglwysig Tongwynlais. Pan safai swyddfa ddidoli’r post ychydig oddi ar Old Church Road yn yr Eglwys Newydd, tueddid i roi’r cyfeiriad post fel yr Eglwys Newydd. Felly mae dryswch ynghylch pa ward rydym yn perthyn iddi.
Cwyna sawl un o drigolion Pantmawr pan fydd pobl yn holi ble maent yn byw a hwythau’n ateb "Pantmawr" fod rhaid iddynt egluro ble mae hynny. Nid yw hyn yn gyfyngedig i bobl o’r tu allan i Gaerdydd ond mae’n digwydd hyd yn oed wrth siarad â Swyddogion Cyngor Caerdydd, yr Heddlu, y Gwasanaethau Argyfwng (ee.999) a’r gwasanaeth 101.

Ym mis Medi 2008, cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus i apêl yn erbyn penderfyniad Cyngor Caerdydd i wrthod caniatáu dymchwel Tafarn Pantmawr ac adeiladu fflatiau a thai tref ar y safle. Yn ei benderfyniad i wrthod yr apêl, dywedodd yr Arolygydd Cynllunio “mae gan Stad Pantmawr hunaniaeth gymunedol ar wahân, a atgyfnerthir gan y graddau y mae wedi’i gwahanu’n gorfforol oddi wrth rannau cyfagos o’r ddinas" . Fel Cadeirydd y grŵp a ymladdodd i achub Tafarn Pantmawr, a Chydlynydd Gwarchod Cymdogaeth Pantmawr, credaf yr hoffai’r trigolion gael cydnabyddiaeth ffurfiol i’r hunaniaeth gymunedol honno.
Dylwn bwysleisio nad wyf yn credu bod Pantmawr yn ddigon mawr i fod yn Ward Cyngor ar wahân. Yr unig gyfleuster sydd gennym yw’r Dafarn ac rydym yn dibynnu’n drwm ar Riwbeina am wasanaethau eraill. Nid wyf yn credu y byddai’n fuddiol inni fod ar wahân oddi wrth Riwbeina. Mae gennym berthynas dda gyda Chynghorwyr Rhiwbeina, sydd yn ein cydnabod fel cymuned ar wahân gan y byddant weithiau’n cyhoeddi taflen newyddion ar wahân i Bantmawr neu’n rhoi dalen arbennig i Bantmawr yn eu Taflen Newyddion i Riwbeina pan fo hynny’n briodol.

Fodd bynnag, bydd ychwanegu enw Pantmawr at enw’r Ward yn gymorth inni gael ein hadnabod, cadw ein hunaniaeth a lleihau’r dryswch ynglŷn â’n lleoliad a’n hymlyniad.

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Pentref Llaneirwg |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Cefnogaf y nifer bresennol o Gynghorwyr Cymuned ar Gyngor Cymuned Pentref Llaneirwg.  Credaf fod y Cynghorwyr Cymuned yn gwneud gwaith da ac yn rhoi gwerth am arian. Mae'r Cynghorwyr yn benderfynol o warchod y gymuned leol a sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i newidiadau a'u bod yn adlewyrchu anghenion y gymuned.<br>Rwy'n cefnogi ffiniau presennol y pentref. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Radur a Threforgan | Radur a Threforgan – Pob ward |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newidiadau: Mae Ward Radur yn cynnwys dwy gymuned Radur a Threforgan sydd bellach yn gweithredu fel un cyfanrwydd sy'n rhannu'r un nodweddion, pryderon a chyfleusterau.<br>Ffiniau'r ward yw Afon Taf i'r dwyrain a'r A4119 (Llantrisant Road) i'r de-orllewin/gorllewin sydd yn ffiniau clir â'r cymunedau nesaf atom. Mae ffiniau eraill y ward mewn mannau gwyrdd sy'n cynnwys hen reilffordd segur a chwarel Ffynnon Daf. Nid ydym yn teimlo bod unrhyw reswm i newid y ffiniau mwy hyblyg hyn.<br>Mae poblogaeth Radur a Threforgan yn sefydlogi gyda chwblhau datblygiad yr ardal lle roedd Seidin Radur. Mae unrhyw newid yn y dyfodol yn fwyaf tebygol o ddeillio o ddatblygiad a gynigir dan Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd ac mae'r wybodaeth ategol gyda'r ymgynghoriad hwn, sy'n rhoi rhagolygon poblogaeth ac etholwyr, yn dangos cynnydd yn wardiau De Radur a Gogledd Radur, sef lle byddai twf Radur dan y Cynllun Datblygu.  Os digwydd y datblygiad hwnnw, bydd yn dal i fod o fewn ffiniau presennol y ward ac ni wêl y cyngor cymuned angen i'w newid. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Llys-faen | Llys-faen |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Ers y cyfarfod cymuned cyntaf yn Rhagfyr 1894, un corff sydd wedi cynrychioli'r cyfan o Lys-faen ynghyd â Chynghorydd y Ward. Nid oes neb o'r trigolion erioed wedi codi na chynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol felly am y rheswm hwnnw mae Cyngor Cymuned Llys-faen yn gryf o blaid cadw'r trefniadau presennol sef:-
1. Bod Cynghorydd Sir yn cynrychioli'r Ward gyfan.
2. Bod y Cyngor Cymuned yn gweithredu ar y strwythur presennol gan gynrychioli'r gymuned gyfan ac na fyddai'n cefnogi ymrannu'n wardiau.
3. Bod y Cyngor Cymuned yn parhau'n anwleidyddol.
4. Cynnal a datblygu'r berthynas gryf bresennol rhwng Cyngor Cymuned Llys-faen, Cymdeithas Gymuned Llys-faen a Grwpiau Cymunedol eraill
5. Bod Cyngor Caerdydd yn cydnabod ac yn gweithio gyda Chyngor Cymuned Llys-faen i wireddu canfyddiadau'r Cynllun Pentref a luniwyd yn dilyn holiadur a ddosbarthwyd i bob cartref yn y pentref.

Newidiadau arfaethedig i Ffin y Gymuned
Hoffai Cyngor Cymuned Llys-faen gynnig tri newid i Ffin y Gymuned:-
1. Trosglwyddo'r darn o Mill Road a Mill Place sydd yn Llanisien i Lys-faen
2. Trosglwyddo'r darn o Lisvane Road sydd yn Llanisien i Lys-faen.
3. Trosglwyddo Graig Llwyn Road, y tai rhwng Cathdy Llys-faen a ffin bresennol Llys-faen, i Ward Llys-faen.

Dyma'r rhesymau dros y newidiadau hyn:-
1 & 2 Mill Road a Lisvane Road yw'r prif ffyrdd drwy'r pentref. Mae'r rhan fwyaf o drigolion Llys-faen yn credu bod y ddwy ardal eisoes yn Ward Llys-faen; yn enwedig gan mai Llys-faen yw cyfeiriad post ac eglwysig rhai ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o drigolion yr ardaloedd hyn yn mynychu'r eglwys ac yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol lleol yn Llys-faen nid Llanisien ac yn ystyried eu hunain yn gyffredinol yn drigolion Llys-faen.
Yn wyneb y canfyddiad lleol a ffiniau naturiol y Ffordd Fawr mae'r Cyngor Cymuned o'r farn y byddai newid ffin y Ward yn ateb call.

3. Tynnwyd sylw Cyngor Cymuned Llys-faen at yr anghysonder hwn gan un o'r trigolion a fynegodd farn glir gan fod hanner yr eiddo ar Graig

| |
|---|
| Llwyn Road eisoes yn Ward Llys-faen a bod gweddill yr eiddo ar Graig Llwyn Road wedi'u lleoli'n agosach at Gymuned Llys-faen y dylent gael eu cynrychioli gan Gynghorydd Sir Llys-faen a Chyngor Cymuned Llys-faen.<br>Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Caerdydd ill dau'n dadlau fod angen datblygu a chryfhau cymunedau, yn enwedig yn yr amgylchiadau ariannol presennol, fel y gall cymunedau cryfach wneud mwy i ddatblygu a darparu eu cyfleusterau a'u gwasanaethau eu hunain. Er mwyn i hyn ddigwydd mae angen caniatáu i drigolion weithio o fewn y gymuned maent yn uniaethu â hi. Yn achos y pedair ffordd a enwyd uchod, Llys-faen yw'r gymuned honno yn amlwg. |

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Unigolyn | Pentyrch - Ward Creigiau |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: Mae plwyf Pentyrch yn cynnwys pentrefi Capel Llanilltern, Creigiau a'r Groesfaen, a'r prif ganolfannau addoliad yw Eglwys Sant Catwg, Pentyrch ac Eglwys Dewi Sant, y Groesfaen. Yng Nghreigiau y mae neuadd eglwys y Groesfaen. Cyn ad-drefnu Llywodraeth leol ym 1996, roedd y Groesfaen ynghlwm wrth Creigiau a Chapel Llanilltern fel un Ward Cyngor dan Awdurdod Lleol Taf Trelái. Gadawodd yr ad-drefnu hwnnw y Groesfaen wedi'i hynysu ym mhen deheuol Rhondda Cynon Taf a hefyd wedi'i hynysu ym mhen dwyreiniol Cyngor Cymuned Pontyclun.<br>Mae'n ymddangos yn chwerthinllyd, wrth edrych yn ôl, y cafodd Creigiau, wedi 1996, ei huno â Sain Ffagan, pentref sydd ryw 3 milltir o bellter o'r Creigiau ac wedi'i wahanu gan dir fferm, coetir a phorfeydd agored, tra bod y Groesfaen ddim ond rhyw 300 llath i ffwrdd.<br>Fy marn i yw y dylid cynnwys y Groesfaen o fewn Cyngor Sir Caerdydd ac o fewn Cyngor Cymuned Pentyrch er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. | |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Cyngor Cymuned Pentyrch | Pentyrch – Pob ward |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau:<br>1. Dod â phentref Groesfaen o fewn Cyngor Sir Caerdydd a hefyd o fewn ardal Cyngor Cymuned Pentyrch. Dylid addasu ffiniau'r Cyngor Sir a Chymuned i'r perwyl hwnnw.<br>2. Dod â'r datblygiad tai yn Rhydlafar o fewn ardal Cyngor Cymuned Pentyrch ac, yn benodol, o fewn ward Pentyrch, ac addasu ffiniau'r Cyngor Cymuned i'r perwyl hwnnw.<br>3. Diddymu ward Cyngor Sir y Creigiau a Sain Ffagan a chreu ward Cyngor Sir newydd yn cynnwys pentrefi Creigiau, Groesfaen a Chapel Llanilltern.<br>4. Cynyddu'r gynrychiolaeth ar Gyngor Cymuned ward newydd Creigiau, Groesfaen a Chapel Llanilltern i o leiaf 7 cynghorydd a chynyddu cynrychiolaeth Cyngor Cymuned Gwaelod y Garth i 3 chynghorydd.<br>Hyd yn oed os na chymeradwyir y newidiadau hyn mae angen cynyddu cynrychiolaeth y Creigiau/Capel Llanilltern a Gwaelod y Garth i fod yn gyson â chynrychiolaeth Pentyrch.<br>Mae'r cyngor cymuned hwn o'r farn y byddai'r holl argymhellion uchod yn cyfrannu at lywodraeth leol effeithiol a chyfleus. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Llys-faen. |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Dim newid: Mae Llys-faen yn bentref cryno ac mae perthynas ragorol rhwng "cyngor cymuned anwleidyddol", heb wardiau (trwy ddewis) a Chymdeithas Gymuned gref Llys-faen sydd â 29 o gyrff yn gysylltiedig â hi yn cynrychioli pob oed a diddordeb. Mae pawb yn gweithio er lles cyffredin y pentref a'i anghenion. Y cwbl sydd ei angen yw i Gyngor Sir Caerdydd weithredu'r siarter yn effeithiol i sicrhau'r cydweithio agosaf posibl yn y dyfodol.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Llandaf<br>Y Tyllgoed |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newid: Cynigiaf y dylid ychwanegu at Gymuned Llandaf trwy dynnu oddi wrth Gymuned y Tyllgoed.
Credaf y dylid trosglwyddo stad dai Tangmere Drive, oddi ar Llantrisant Road, a'r ffyrdd wedi hynny oddi ar Tangmere Drive (yn cynnwys Kirton Close a'r garej Texaco), sydd i gyd i'r gogledd o'r hen reilffordd, o Gymuned y Tyllgoed i Gymuned Llandaf.
Mae presenoldeb yr hen reilffordd rhwng stad Tangmere Drive (y mae pob ffordd arni'n ffordd bengaead oddi ar ffordd Llantrisant yng Nghymuned Llandaf), a'r rhan fwyaf o Gymuned y Tyllgoed yn darparu rhwystr naturiol i symudiad trigolion a gyrwyr yn y ddau grŵp a byddai'n ffin ddelfrydol rhwng cymunedau Llandaf a'r Tyllgoed. Fel y mae, yr unig ffordd i fynd i stad Tangmere Drive mewn cerbyd yw o Gymuned Llandaf, sy'n golygu ei bod wedi'i chau allan braidd o gymuned y Tyllgoed.

Mae'r grŵp agosaf o gyfleusterau yn y Tyllgoed at stad Tangmere Drive (a adwaenir hefyd fel Radyr Way) ar gyffordd Waterhall Road a Pwllmelin Road. Ond yn llawer nes na'r rhain, i gerddwyr a modurwyr, mae cyfleusterau stad Danescourt, o fewn Cymuned Llandaf, lle ceir Swyddfa Bost, fferyllfa ac uwchfarchnad. Yn ogystal â'r rhain, yr un pellter i ffwrdd i drigolion y Tyllgoed ac yn fwy hwylus, mae'r cyfleusterau a geir yn stryd fawr pentref Llandaf. Felly mae trigolion stad Tangmere Drive yn llawer mwy tebygol o fynychu'r cyfleusterau a geir yng nghymuned Llandaf i raddau llawer mwy na'r rhai yn y Tyllgoed, a dyna sy'n digwydd.

Gorsaf Danescourt yw'r orsaf drenau agosaf at y stad, ac mae honno yng nghymuned Llandaf. Hefyd, er bod llwybr bws Rhif 33 (A a B) yn

rhedeg o'r stad i mewn i'r Tyllgoed, mae llwybr bws Rhif 60/62(A) yn gwasanaethu Danescourt a Stryd Fawr Llandaf ychydig yn amlach a hefyd ar nos Sul, yn wahanol i'r 33. Sy'n golygu bod Llandaf a Danescourt yn gyrchfan fwy atyniadol a chyfleus i bobl sydd eisiau defnyddio cludiant cyhoeddus o stad Tangmere Drive.

Yn sgil y ffactorau hyn, nid yw'n ymddangos yn synhwyrol bod trigolion stad Tangmere Drive yn ethol cynghorwyr sy'n cynrychioli'r Tyllgoed a hwythau'n defnyddio cyfleusterau, ac yn y bôn yn rhan o, Gymuned Llandaf, sydd ar eu stepan drws. Efallai nad yw cynghorwyr y Tyllgoed yn y sefyllfa orau i gynrychioli trigolion stad Tangmere Drive pan fydd eu pryder yn fwy tebygol o fod yn rhywbeth o fewn Cymuned Llandaf nag o fewn y Tyllgoed.

Byddai trosglwyddo stad Tangmere Drive hefyd yn caniatáu casglu sbwriel ac ailgylchu gwastraff ychydig yn fwy effeithlon, gan na fyddai ond rhaid i'r lorïau gwastraff droi i'r de ar y ffordd i stad Danescourt neu oddi yno, yn hytrach na gorfod mynd ffordd bellach o ran fwyaf y Tyllgoed.

Gallai'r trosglwyddiad hefyd gynnwys y darn llai o Tangmere Drive sy'n cysylltu â Waterhall Road, ond nid dyna brif ergyd y cynnig oherwydd ei ddaearyddiaeth.

CARDIFF
CAERDYDD

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Phil Bale<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Lanisien | Llanisien |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Hoffwn gynnig y dylid newid enw Ward Llanisien i Ward Llanisien a Draenen Pen-y-Graig. Credaf fod hyn yn adlewyrchu'r cysylltiadau hanesyddol ac eraill yn well, gan gynnwys dalgylchoedd ysgolion rhwng y ddwy gymuned hyn yn well. Byddai hefyd yn cydnabod y twf ym mhoblogaeth Draenen Pen-y-Graig yn y blynyddoedd diweddar, a'i bod bellach yn cynnwys cyfran lawer mwy o'r gymuned leol. Ar wahân i'r awgrym hwn, rwy'n cefnogi'r ffiniau presennol ar gyfer Ward Llanisien ac nid wyf yn awyddus i weld unrhyw newidiadau.

Hoffwn dynnu sylw eto at y ffaith fod map y Cyngor a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymgynghoriad cymunedol hwn yn dangos bod 1-15 Maberley Court o fewn Llanisien, er bod y trigolion yn hanesyddol wedi pleidleisio yng Nghyncoed. Mae'r camgymeriad mapio parhaus hwn yn adlewyrchu dryswch ehangach ynghylch a yw Maberley Court yn Llanisien (gan fod y rhan fwyaf o'r eiddo'n ffinio ar Ewenny Road) yntau Cyncoed. Does gen i ddim barn gadarn ar hyn o bryd ar y naill bosibilrwydd na'r llall ond gofynnaf am eglurhau'r sefyllfa fel rhan o'r ymarfer ymgynghori hwn.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Cymdeithas Cymuned Llys-faen | Llys-faen |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Dim newid: Nid yw'r Gymdeithas [Cymdeithas Cymuned Llys-faen] yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau presennol y gymuned. Mae'r Gymdeithas yn ategu ffurf a swyddogaeth bresennol Cyngor Cymuned Llys-faen [y Cyngor]. Mae'r Gymdeithas yn awyddus i gadw cymuned y pentref yn ei ffurf a'i maint presennol. Mae'r Gymdeithas yn erbyn trefoli'r ardal ac yn dymuno cadw "Lletem Werdd" Llys-faen a gynigiwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Felly mae'r Gymdeithas yn cefnogi llythyr gwrthwynebiad diweddar y Cyngor dyddiedig 14 Mai 2013 yn erbyn y datblygiad arfaethedig yn Cefn Mably Road cyf 13/00649/DCO.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cyng Dilwar Ali<br>Y Cyng Siobhan Corria<br>Cynghorwyr Cyngor Caerdydd dros Ystum Taf | Ystum Taf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Mae Ystum Taf eisoes yn ward dair rhan, sef Hen Ystum Taf, Gabalfa a stad Mynachdy a'n barn ni yw peidio â chynnig unrhyw newidiadau i drefniadau presennol y gymuned. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Georgina Phillips<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Bontprennau a Phentref Llaneirwg | Pontprennau<br>Pentref Llaneirwg |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newid: Ar y cyfan ni fyddwn am weld unrhyw newidiadau ar hyn o bryd yn Ward Pontprennau a Phentref Llaneirwg gyda strategaeth orau'r Cynllun Datblygu Lleol i'w phennu'n derfynol cyn hir, mae bwriad i wneud newidiadau mawr yn ardal Pontprennau a Phentref Llaneirwg i faint yr etholaeth a byddai unrhyw newidiadau posibl a wneid nawr yn gorfod newid eto wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt ac wrth i'r ardal dyfu. Y tebygolrwydd yw y bydd poblogaeth yr ardal yn dyblu.<br><br>Fodd bynnag, mae un ardal ym Mhentref Llaneirwg sydd angen ei newid yn gynt yn fy marn i. Ardal yw hon lle gwnaed newidiadau'n ddiweddar, gan symud etholwyr allan o adrannau Tredelerch a Trowbridge, a'u gosod yn ardal Pentref Llaneirwg, lle maent bellach yn rhan o etholaeth Cyngor Cymuned Pentref Llaneirwg. Nid ydynt, fodd bynnag, yn aelodau o etholaeth Cyngor Sir Pentref Llaneirwg ac maent yn cael hon yn sefyllfa anodd iawn, ac wedi mynegi pryderon ynghylch y sefyllfa y maent ynddi. Felly gofynnaf am ddelio â'r sefyllfa hon cyn gynted ag y bo modd. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd (Cymuned) Leonard Phillips | Pentref Llaneirwg<br>Pontprennau |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Nid yw ffin Cymuned Pentref Llaneirwg ar hyd Duncan Close a Bethania Row yn cyfateb i ffin ward Pontprennau a Phentref Llaneirwg. Dylid newid ffin y ward i gywiro'r anghysonder hwn sy'n peri dryswch.
Mae Strategaeth Orau Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig Caerdydd yn nodi darnau o dir o fewn ffin Cymuned Pentref Llaneirwg ar gyfer datblygu tai, yn wir mae cynigion eisoes wedi'u cyflwyno i Gyngor Caerdydd ar gyfer dros 1,000 o dai ynghyd ag Ysgol a Siopau a fydd o leiaf yn dyblu poblogaeth y gymuned.  Mae cynlluniau hefyd i ryddhau tir ar gyfer datblygiad mawr rhwng Pontprennau a Llys-faen a fydd, fwy na thebyg, yn galw am newid ffiniau pan fydd wedi'i gwblhau. Yn wyneb statws presennol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a'i effaith debygol ar gymuned Pentref Llaneirwg a'r ward y mae'n perthyn iddi, byddai'n wirion eithriadol gwneud newidiadau sylweddol i'r ffin ar hyn o bryd.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Plaid Cymru, Cymuned Ardal Caerdydd | Tre-biwt<br>Treganna<br>Trelái<br>Grangetown<br>Llanisien<br>Llandaf<br>Pentyrch – Pob ward<br>Glanyrafon<br>Sain Ffagan |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau:
Cynigiwn sawl newid i ffiniau'r cymunedau yn bennaf yn ymwneud â sefydlu sawl cymuned newydd. Mae ein cynigion yn adlewyrchu'r ffaith y cafwyd llawer o ddatblygiadau tai newydd ers sefydlu patrwm presennol y ffiniau cymunedol, ac nad yw'r ffiniau mwyach yn adlewyrchu sefyllfaoedd cymdeithasol i'r graddau y gwnaent yn wreiddiol.  Fel egwyddor gyffredinol, ystyriwn fod llywodraeth a chynrychiolaeth gymunedol yn debygol o wella os yw ffiniau cymunedau'n diffinio ardaloedd sy'n gymharol gydlynol a dealladwy i'w trigolion.  Amlinellir ein cynigion

penodol fel a ganlyn yng nghyswllt yr ardaloedd cymuned presennol:

Pentyrch. Cynigiwn y dylid hollti'r gymuned bresennol yn dair - Gwaelod y Garth, Pentyrch ei hun a'r Creigiau, gan ddefnyddio'r ffiniau wardiau cymunedol presennol. Mae'r tair ward gymuned bellach yn cynnwys tri phentref sylweddol ar wahân, a does dim rheswm da pam na ddylai ffiniau'r cymunedau adlewyrchu hynny. Mae natur annaturiol y trefniadau presennol yn amlwg o'r ffaith fod ward cymuned y Creigiau'n rhan o ward awdurdod lleol wahanol i'r ddwy ward gymuned arall.

Sain Ffagan a Threlái
Mae'r ffin bresennol rhwng y ddwy gymuned hyn yn rhedeg trwy ganol datblygiad tai cymharol ddiweddar sydd yn wahanol o ran cymeriad i rannau eraill y ddwy gymuned. Cynigiwn y dylid sefydlu cymuned newydd i gynnwys yr ardal honno, gan gynnwys y rhan o gymuned bresennol Sain Ffagan sydd i'r de o afon Elái a'r rhan o gymuned Trelái sydd i'r gorllewin o Green Farm Road. Dyma yn fras ardal hen blwyf dinesig Llanfihangel ar Elái (yn Gymraeg) neu Michaelston super Ely (yn Saesneg) a chynigiwn y dylid rhoi'r enw hwnnw ar y gymuned newydd.

Glanyrafon
Cynigiwn y dylid rhannu cymuned bresennol Glanyrafon yn ddwy ar hyd Heol y Bont-faen, a bod y rhan ddeheuol yn cadw'r enw Glanyrafon a'r rhan ogleddol yn cael ei enwi yn gymuned Pontcanna. Mae'r Glanyrafon presennol yn cynnwys dwy ardal bendant wahanol iawn eu cymeriad a ffin glir rhyngddynt, a dylid adlewyrchu hynny ym mhatrwm ffiniau cymunedau.

Llandaf
Mae Llandaf hefyd yn cynnwys dwy ardal ar wahân, er nad ydynt mor wahanol i'w gilydd â Glanyrafon a Phontcanna. Cynigiwn y dylai ardal Danescourt, a oedd yn wreiddiol ym mhlwyf dinesig Radur yn hytrach na Llandaf, fod yn gymuned ar wahân oddi wrth Landaf

Treganna a Grangetown
Effeithiwyd ar y ddwy gymuned hyn drwy ddatblygu ardaloedd tai newydd, a disgwylir y bydd datblygiadau arfaethedig pellach yn cynyddu eu maint ymhellach, nes bod Grangetown y gymuned fwyaf yng Nghaerdydd gyda phoblogaeth o bron 25,000 erbyn 2018. Bydd Treganna ymhlith y mwyaf hefyd. Mae'r ardaloedd tai newydd yn amlwg wahanol o ran cymeriad i'r ardaloedd Fictorianaidd sy'n ffurfio rhannau hŷn y ddwy gymuned. Felly cynigiwn y dylid gwahanu ardal Lecwydd o gymuned Treganna, i'r de o'r brif reilffordd, i ffurfio cymuned newydd a'i huno â'r rhan o gymuned bresennol Grangetown sy'n gorwedd i'r gorllewin o'r rheilffordd o Gaerdydd i Benarth a'r Barri. Dylid ei galw'n Lecwydd.

| |
|---|
| Cynigiwn hefyd y dylai rhan ddeheuol Grangetown, i'r de o Ferry Road ac yn cynnwys ardaloedd Windsor Quay a Dunleavy Drive, gael ei chodi'n gymuned newydd. Nid oes gennym unrhyw gynnig o ran enw'r gymuned.<br><br>Tre-biwt<br>Mae sefyllfa debyg yn bodoli yn Nhre-biwt, lle mae gwahaniaeth amlwg rhwng y rhan hŷn i'r gorllewin o Rodfa Bute a Rhodfa Lloyd George a'r ardaloedd tai newydd i'r dwyrain, a adwaenir yn gyffredinol fel Glanfa Iwerydd. Cynigiwn y dylai'r ardal honno fod yn gymuned ar wahân i Dre-biwt.<br><br>Llanisien<br>Mae Llanisien yn ardal gymuned arall sydd yn ddau hanner amlwg, ac mae hefyd yn un o'r mwyaf. Cynigiwn y dylid codi ardal Draenen Pen-y-Graig yn gymuned ar wahân.<br><br>Pob Cyngor Cymuned<br>Mae'r sefyllfa bresennol lle mae gan rai cymunedau eu cynghorau cymuned eu hunain ac eraill ddim, yn anghyson. Cynigiwn y dylid sefydlu cynghorau cymuned ym mhob cymuned oni bai fod y trigolion yn amlwg yn dymuno peidio. Rhagwelwn y dylai eu swyddogaeth fod yn un ymgynghorol gan gadw unrhyw dreuliau gweinyddol i'r isafswm angenrheidiol i gynnal cyfarfodydd rheolaidd a chylchlythyru dogfennau. |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Unigolyn | Llandaf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Nid wyf yn barod i gael lefel arall o fiwrocratiaeth yn costio mwy o arian. Nid yw Llandaf yn gymuned. Nid yw Cymdeithas Llandaf yn cyfathrebu â rhannau eraill o Landaf y tu allan i'w ffiniau "dinesig" dychmygol ac mae'n faen tramgwydd i ddatblygiad. Mae Cymdeithas Cymuned Danescourt yn gweithio'n dda heb gost ariannol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Unigolyn | Llandaf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Mae gennym ddigon o haenau o fiwrocratiaeth i ddelio â nhw'n barod. Mae gennym ASE, AS, AC a Chynghorwyr da i ofalu amdanom yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Dim ond creu haen arall fyddem wrth gael Cyngor Cymuned, a fyddai'n gyfyngedig iawn o ran ei bwerau i allu gwasanaethu'r cyfan o Landaf yn hytrach na dim ond ein rhan ni, a fyddai'n gam yn ôl gan ein bod eisoes yn cael ein gwasanaethu'n dda gan Gymdeithas Cymuned Danescourt, ac rwy'n amau y byddai gan ein lleisiau yn y Gymdeithas lai o effaith nag ar hyn o bryd pe sefydlid Cyngor Cymuned. Siawns nad yw'r pedair haen bresennol o lywodraeth arnom yn ddigon. Byddai'n rhaid cynyddu cost ein bil Treth Gyngor bob blwyddyn hefyd i dalu am unrhyw Gyngor Cymuned, na fyddai'n gam poblogaidd. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Julie Morgan AM | Gabalfa<br>Y Mynydd Bychan<br>Llys-faen<br>Ystum Taf<br>Llanisien<br>Pentref Llaneirwg<br>Pontprennau<br>Rhiwbeina<br>Tongwynlais<br>Yr Eglwys Newydd |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Mae'r ffiniau wardiau presennol yn foddhaol ac yn adlewyrchu'r cymunedau lleol ar y cyfan. Dylid cadw Llanisien a Draenen Pen-y-Graig fel un ward oherwydd y cysylltiadau cryf rhwng y ddwy ardal. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Y Cynghorydd Siobhan Corria<br>Cynghorydd Cyngor Caerdydd dros Ystum Taf | Ystum Taf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Dim newid: Rwy'n hollol gefnogol i ffin bresennol Ystum Taf. Ni welaf ddim rheswm dros newid ffin ward Ystum Taf a byddwn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw newidiadau daearyddol seiliedig ar y twf a ragwelir yn y boblogaeth. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Cymdeithas Llandaf (cysylltiedig ag Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru) | Llandaf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Gofynnwyd i Bwyllgor Cymdeithas Llandaf ddadlau achos dros gael cyngor cymuned i Landaf gan y mwyafrif a oedd yn bresennol mewn cyfarfod cyhoeddus ar 20 Mai 2013. Ystyriwn y byddai Llandaf yn elwa o gael llais a chydnabyddiaeth swyddogol ar faterion lleol ac mae'n lleoliad amlwg o addas ar gyfer sefydlu cyngor cymuned oherwydd<br>- mae'n ardal wedi'i diffinio'n dda a'i chanoli ar anheddiad hanesyddol ar wahân<br>- mae'n lle sy'n ennyn ysbryd cymunedol cryf ac ymdeimlad o hunaniaeth<br>- mae yno gymuned weithgar iawn sydd wedi ymgyrchu'n llwyddiannus dros fuddsoddi yn Insole Court a'i ailagor. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Tre-biwt |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Cynigiwn y dylid sefydlu cymuned newydd Glanfa Iwerydd. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai prif reilffordd y De, rheilffordd Bae Caerdydd, Rhodfa Lloyd George, Roald Dahl Plass, ffin anheddiad deheuol Caerdydd a ffin bresennol Tre-biwt/Sblot. Byddai angen asesu'r ffin o fewn Bae Caerdydd ei hun, ond cynigiwn y dylai'r cyfan o ran Caerdydd o Forglawdd y Bae ddod o fewn cymuned Glanfa Iwerydd. Cydnabyddir bodolaeth Glanfa Iwerydd ar arwyddion ffyrdd a mapiau'r arolwg ordnans. Mae'r ardal sydd o fewn ffiniau'r gymuned yn cynnwys bron yn gyfan gwbl ddatblygiadau tai a ddigwyddodd yn yr 20 mlynedd diwethaf. Mae cysylltiad clir rhwng yr eiddo hyn ac maent yn bensaernïol wahanol i gymuned bresennol Tre-biwt ac mae Rhodfa Lloyd George a llinell Bae Caerdydd yn ffurfio nodwedd ffiniol gref. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Cyncoed<br>Pentwyn<br>Pen-y-lan |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Cynigiwn y dylid cynnwys tair ardal o fewn cymuned bresennol Cyncoed.
- o gymuned bresennol Pentwyn, yr ardal i'r gorllewin o Nant Glandulas (yn cynnwys Pontfaen). Mae'r cynnig hwn yn cysoni'r ffin rhwng cymunedau Pentwyn a Chyncoed â'r ffin bresennol rhwng cymunedau Llys-faen a Phontprennau. Mae Nant Glandulas yn nodwedd fwy gweladwy i'r diben hwn.
- o gymuned bresennol Pen-y-lan, Lady Mary Road. Byddai'r cynnig hwn yn golygu bod pob ffordd sy'n arwain yn uniongyrchol at Lake Road East wedi'u cynnwys o fewn un gymuned.
- o gymuned bresennol Pen-y-lan, Ffordd Bodlyn a'r holl eiddo ar ochr ddwyreiniol Cyncoed Road i'r gogledd o Ffordd Bodlyn. Mae'r ffin bresennol rhwng Pen-y-lan a Chyncoed yn gosod tai sydd gyferbyn â'i gilydd ar yr un ffordd mewn cymunedau gwahanol. Mae'r cynnig hwn yn cyfartalu'r ffin fel bod eiddo sydd gyferbyn â'i gilydd ar Cyncoed Road yn sefyll yn yr un gymuned.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Sain Ffagan<br>Trelái |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*

Newidiadau: Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Llanfihangel-ar-Elái. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai prif lein rheilffordd y De, ffin anheddiad gorllewinol Caerdydd, yr A48, Llanfihangel Road, Grand Avenue, Snowden Road (llinell ffensys cefn gorllewinol), Recreation Ground a Plymouth Great Wood, gan ymgorffori ardaloedd o gymunedau presennol Trelái a Sain Ffagan.
Cydnabyddir bodolaeth Llanfihangel-ar-Elái ar arwyddion ffyrdd ac ar fapiau'r arolwg ordnans. Cydnabyddir hi fel ardal heddlu ar wahân ac mae'n rhoi ei henw i'r ysgol uwchradd a'r dafarn leol. Mae ffin y gymuned arfaethedig yn cynnwys yr holl ddatblygiadau tai diweddar sydd ar hyn o bryd wedi'u rhannu rhwng cymunedau Trelái a Sain Ffagan, gan uno eiddo sydd yn amlwg yn gysylltiedig ac yn wahanol yn bensaernïol i'r eiddo a geir yng nghymunedau Trelái a Sain Ffagan. Mae ffin y gymuned arfaethedig hefyd yn darparu llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus trwy ddatrys statws Marguerites Way (sydd ar hyn o bryd heb gysylltiad ffordd â gweddill Cymuned Sain Ffagan lle saif yn awr).

Cynigiwn ymhellach y dylai gweddill Cyngor Cymuned Sain Ffagan gael ei wardio gan fod y tai sy'n weddill yn ardal y gymuned wedi'u rhannu'n bennaf yn ddau glwstwr, yn cynrychioli pentref Sain Ffagan a Rhydlafar (ac mae arwyddion ar wahân i'r rhain, yn enwedig ar Ffordd Crofft-y-Genau sy'n rhedeg am dros 1.5 milltir rhwng y ddau). Felly, cynigiwn y dylid cael ward cymuned Rhydlafar, wedi'i ffinio gan yr M4, gwely hen reilffordd Ffynnon Daf – y Barri a gwely hen reilffordd y Tyllgoed – Creigiau, ac wedi'i chynrychioli gan 6 chynghorydd cymuned, a ward cymuned Sain Ffagan (sef gweddill ardal y gymuned) a gynrychiolid gan 4 cynghorydd cymuned.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Y Tyllgoed |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Pentre-baen. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai Pentrebane Road, Plasmawr Road, Poplar Road, Maes Chwaraeon, cefn Gorse Place- St Fagans Road-St Fagans Rise-Oakway-Firs Avenue, a ffin bresennol y Tyllgoed-Sain Ffagan. Cydnabyddir bodolaeth Pentre-baen ar arwyddion ffyrdd a llwybrau bysus, yn ogystal ag ar fapiau'r arolwg ordnans. Roedd gynt yn adran etholiadol i Gyngor Sir De Morgannwg. Mae ganddi ei chanolfan gymunedol ei hun, mae'n rhoi ei henw i'r ysgol gynradd leol a hefyd i fusnesau lleol. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Y Mynydd Bychan |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Llwyn Fedw. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai'r A470, A469, Tywern Road a Tyn y Parc Road. Cydnabyddir bodolaeth Llwyn Fedw ar fapiau'r arolwg ordnans ac ar lwybrau bysus. Mae'n rhoi ei henw i'r ysgol gynradd a'r dafarn leol ac i orsaf reilffordd gyfagos. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Llandaf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Cynigiwn y dylid sefydlu cyngor cymuned newydd i Landaf. Mynychodd [Cynghorydd] y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llandaf ym mis Mai 2013 a chredir yn gryf fod y gefnogaeth a ddangoswyd i sefydlu cyngor cymuned yn arwydd o'r teimlad yn y gymuned yn gyffredinol.<br>Cydnabyddwn y bydd dadl ynghylch union ffiniau'r gymuned os sefydlir cyngor cymuned, a chredwn y dylid rhoi hyn ar brawf yn yr ymgynghori pan fydd cynnig drafft wedi'i lunio. Cynigiwn os caiff ei sefydlu ar sail y ffiniau cymunedol presennol, y dylai'r cyngor cymuned newydd | |

gynnwys 9 cynghorydd ac y dylid wardio'r gymuned, gyda ward gymuned Danescourt (sef y gymuned i'r gorllewin o linell y Ddinas) yn cael ei chynrychioli gan 3 chynghorydd a ward gymuned Llandaf (sef gweddill ardal y gymuned) wedi'i chynrychioli gan 6 chynghorydd.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Llanisien |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Draenen Pen-y-Graig. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai Caerphilly Road, yr M4, Cherry Orchard Road, rheilffordd Rhymni a'r parc hirgul. Cydnabyddir bodolaeth Draenen Pen-y-Graig ar arwyddion ffyrdd, ar fapiau'r arolwg ordnans ac ar lwybrau bysus. Mae ganddi ganolfan gymunedol yn barod ac mae'n rhoi ei henw i'r orsaf a'r ysgol gynradd leol. Mae wedi'i chydnabod hefyd fel ardal heddlu ar wahân ac roedd gynt yn adran etholiadol i Gyngor Sir De Morgannwg. Datblygiadau preswyl sydd wedi digwydd o fewn y 25 mlynedd diwethaf a geir yn yr ardal o fewn ffiniau'r gymuned bron yn ddieithriad. Mae cysylltiad clir rhwng yr eiddo hyn ac maent yn bensaernïol wahanol i gymuned bresennol Llanisien ac mae'r ffin arfaethedig ar hyd y parc hirgul yn weladwy iawn ar y ddaear.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Rhiwbeina |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Pantmawr. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai'r A470, Pantmawr Road, Rhiwbeina Hill, Heol Llanisien Fach, Caerphilly Road, ffin anheddiad gogleddol Caerdydd a ffin bresennol Rhiwbeina-Tongwynlais. Cydnabyddir bodolaeth Pantmawr ar arwyddion ffyrdd, ar lwybrau bysus ac ar fapiau'r arolwg ordnans ac yn enwau ffyrdd lleol. Mae hefyd yn rhoi ei henw i'r dafarn leol a fu'n destun ymgyrchoedd cymunedol yn y blynyddoedd diweddar. Roedd gynt yn adran etholiadol i Gyngor Sir De Morgannwg. Mae'r ffin a gynigir yn rhannu datblygiadau tai o wahanol gyfnodau amlwg ac adnabyddadwy.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Trowbridge<br>Tredelerch<br>Pentref Llaneirwg<br>Pontprennau |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Cynigiwn y dylid trosglwyddo'r ardal o fewn ffiniau Wentloog Road, New Road, Mardy Road, Wentloog Avenue, Mardy Road, ffin bresennol Tredelerch/Trowbridge, ffin anheddiad deheuol Caerdydd a phrif reilffordd y De o gymuned bresennol Trowbridge i gymuned Tredelerch. Does gan yr ardal hon ddim ffordd i gymuned Trowbridge heb fynd drwy gymuned Tredelerch ac mae bron i filltir o'r ardal hon i unrhyw ran o gymuned Trowbridge lle mae pobl yn byw. Felly, y dewis llywodraethu mwyaf effeithiol ar gyfer y gymuned hon yw ei chynnwys o fewn cymuned Tredelerch.

Cynigiwn y dylid trosglwyddo Canopus Close a Duncan Close o gymuned bresennol Pentref Llaneirwg i gymuned Trowbridge. Cydnabyddwn fod awydd cryf yn y closau hyn i fod yn gysylltiedig â chymuned Pentref Llaneirwg fel y mynegwyd yn yr adolygiad cymunedau diwethaf. Serch hynny, nid yw'r awydd hwn yn cyd-fynd â'r sefyllfa ar y ddaear ac ni ellid dweud y byddai'n darparu llywodraeth effeithiol na chyfleus. Y ffordd allan o'r closau hyn yw Greenway Road, ac felly maent hanner milltir i ffwrdd o unrhyw ran arall o Bentref Llaneirwg ar y ffordd, ac ymhellach fyth oddi wrth gyfleusterau lleol yn y gymuned honno. Mae'r sefyllfa a sefydlwyd gan yr adolygiad blaenorol yn anghyson â'r driniaeth a roddwyd i glosau eraill oddi ar Greenway Road a dylid ei hailystyried.

Cynigiwn y dylid trosglwyddo'r ardal o fewn ffiniau'r A48, A4232, M4 ac Afon Rhymni o gymuned bresennol Pentref Llaneirwg i gymuned Pontprennau. Yn hanesyddol, Afon Rhymni oedd y ffin rhwng Sir Fynwy a Sir Forgannwg a dyma felly oedd ymyl Pentref Llaneirwg. Mae'n debygol y ceir datblygiad sylweddol ar yr ardal y cynigir ei throsglwyddo yn y dyfodol agos a bydd unrhyw ddatblygiad o'r fath yn tueddu'n naturiol tuag at ffordd gyswllt Pentwyn yn hytrach na Ffordd Tŷ'r Winch. Felly mae gosod yr ardal hon yng nghymuned Pontprennau'n adlewyrchu'r hanes a'r sefyllfa debygol yn y dyfodol.

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Y Sblot |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Tremorfa.  Ffiniau'r gymuned newydd fyddai Afon Rhymni, prif reilffordd y De, lein gangen Sblot, ffin bresennol Sblot/Tre-biwt a ffin anheddiad deheuol Caerdydd.  Cydnabyddir bodolaeth Tremorfa ar fapiau'r arolwg ordnans a llwybrau bysus ac mae'n rhoi ei henw i'r ysgol feithrin leol a pharc lleol yn ogystal â sawl busnes.  Mae wedi'i chydnabod hefyd fel ardal heddlu ar wahân ac roedd gynt yn adran etholiadol i Gyngor Sir De Morgannwg.  Mae'r rheilffordd yn rhoi ffin gref i'r gymuned ac mae rhaniad amlwg rhwng gwahanol gyfnodau datblygiadau tai. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Yr Eglwys Newydd |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Cynigiwn y dylid sefydlu cymuned newydd Coryton.  Ffiniau'r gymuned newydd fyddai'r M4, A470, lein Coryton, cefn Ysbyty'r Eglwys Newydd, ffos gyflenwi Melingruffydd, Afon Taf.  Cydnabyddir bodolaeth Coryton ar arwyddion ffyrdd ac ar fapiau'r arolwg ordnans. Mae'n rhoi ei henw i'r ysgol gynradd leol ac i'r orsaf leol, y rheilffordd a chyffordd y draffordd, sydd i gyd yn nodweddion ffiniol cryf. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol a Democratiaid Rhyddfrydol Caerdydd | Treganna Grangetown Glanyrafon |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*

Newidiadau: Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Lecwydd. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai prif reilffordd y De, Leckwith Road, Lein Cyffordd Penarth, lein Bro Morgannwg, Penarth Road, ffin anheddiad gorllewinol Caerdydd, Afon Elái a'r A48. Cydnabyddir bodolaeth Lecwydd ar arwyddion ffyrdd ac ar fapiau'r arolwg ordnans ac yn enwau ffyrdd lleol, yn ogystal ag yn enw eglwys leol. Mae tai yn yr ardal yn cynrychioli nifer o gyfnodau datblygu, llawer ohonynt yn gymharol ddiweddar a phob un yn fwy cysylltiedig â'u hunain ac â'i gilydd nag â thai mewn mannau eraill yng nghymunedau presennol Treganna a Grangetown lle safant ar hyn o bryd. Rhagwelir datblygiad sylweddol newydd hefyd ar safle Melin Elái. Mae'r rheilffordd yn darparu nodwedd ffiniol gref i'r gymuned.

Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd a'i ffiniau'n rhedeg ar hyd Penarth Road, hen wely'r rheilffordd, Ferry Road, cefn Jim Driscoll Way, Afon Taf a ffin anheddiad gorllewinol Caerdydd. Datblygiadau preswyl sydd wedi digwydd o fewn yr 20 mlynedd diwethaf a geir yn yr ardal o fewn ffiniau'r gymuned bron yn ddieithriad. Mae cysylltiad clir rhwng yr eiddo hyn ac maent yn bensaernïol wahanol i gymuned bresennol Grangetown ac mae'r ffin arfaethedig yn weladwy iawn ar y ddaear. Rhagwelir datblygiad sylweddol newydd hefyd ar safle Cardiff Pointe. Cydnabyddwn nad oes gan yr ardal hon un enw sefydlog eto ac awgrymwn y dylai enw'r gymuned newydd fod yn rhan o'r ymgynghoriad pan gyflwynir cynnig drafft.

Cynigiwn y dylid creu cymuned newydd Pontcanna. Ffiniau'r gymuned newydd fyddai Afon Taf, Rhodfa'r Gorllewin, Lôn y Felin, cefn Cardiff Road, Llandaf Road, Wyndham Crescent a Heol y Bont-faen. Mae Pontcanna'n adnabyddus ledled Caerdydd am y caeau o'r un enw. Fe'i cydnabyddir ar fapiau'r arolwg ordnans ac mae'n rhoi ei henw i lu o fusnesau lleol a sefydliadau cymunedol. Roedd gynt yn adran etholiadol i Gyngor Sir De Morgannwg.

Cynigiwn y dylid trosglwyddo'r ardal o fewn ffiniau Wyndham Crescent, Heol y Bont-faen, Wyndham Place, Wellington Street, Leckwith Road a Llandaf Road o gymuned bresennol Glanyrafon i gymuned Treganna. Mae tai yn yr ardal hon yn wahanol o ran golwg i'r rhai ym Mhontcanna a Glanyrafon, yn cynrychioli cyfnod datblygu gwahanol. Mae'r ardal yn cynnwys nifer o fusnesau ac adeiladau ag enw Treganna arnynt (Neuadd Gymuned Treganna yw'r amlycaf).

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Cyncoed |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud 18-21 Hollybush Heights o Gymuned Cyncoed i Gymuned Pentwyn i gyd-fynd ag Adran Etholiadol Pentwyn.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt:
Etholwyr 4 (nid oes trigolion ymhob fflat ar hyn o bryd)
Eiddo 4 eiddo preswyl a garej ddwbl yn perthyn i 57 Hollybush Road
Bydd hyn yn sicrhau na chaiff y stryd Hollybush Heights ei rhannu rhwng dwy gymuned ac os sefydlir cyngor bydd ganddynt gynrychiolaeth gywir.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llanisien |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud 150 eiddo o Gymuned Llanisien i Gymuned Cyncoed i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt:

| | | |
|---|---|---|
| Rheidol Close | 39 o etholwyr | 18 eiddo |
| Towy Road | 28 o etholwyr | 12 eiddo |
| Elan Road | 47 o etholwyr | 20 eiddo |
| Solva Avenue | 64 o etholwyr | 33 eiddo |
| Fidlas Road | 51 o etholwyr | 32 eiddo |
| Ewenny Road | 38 o etholwyr | 17 eiddo |
| Usk Road | 33 o etholwyr | 18 eiddo |

Mae gan Gymuned Llanisien ffiniau corfforol traffordd yr M4 i'r gogledd, Thornhill Road i'r gorllewin a rheilffyrdd i'r de a'r dwyrain. Yr eithriad i hyn yw'r ardal tuag at y gronfa ddŵr.
Cynigir y dylai'r ffiniau corfforol hyn sy'n diffinio Cymuned Llanisien gael eu parhau ar draws yr anghysonder hwn ac felly bod yr eiddo hyn yn symud i Gyncoed lle mae ganddynt fwy o gyswllt ffyrdd.
Cynigir y gallai ardal gorfforol Cronfa Llanisien a Chronfa Llys-faen naill ai adleoli i Gymuned Cyncoed neu y gallai Cronfa Llanisien adleoli i

| |
|---|
| Gymuned Cyncoed a Chronfa Llys-faen i Gymuned Llys-faen. Does gan y cynigydd ddim barn ar ba un fyddai'r mwyaf addas.<br>Dylid darllen y cynnig hwn ar y cyd â'r 2 gynnig arall sy'n effeithio ar yr ardal hon |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llanisien |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Symud yr eiddo yn Maberley Court o Gymuned Llanisien i Gymuned Cyncoed.<br>Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt:<br>Maberley Court 22 o etholwyr 24 eiddo<br>Heol bengaead yw Maberley Court, heb ddim mynediad uniongyrchol i'w chymuned bresennol, Llanisien. Ar Fidlas Avenue, sydd yng Nghyncoed, y mae ei mynedfa, ac felly dylid newid ei threfniadau wardio i gyd-fynd â'i threfniadau etholiadol sef pleidleisio ar gyfer Cyncoed mewn etholiadau lleol.<br>Dylid darllen y cynnig hwn ar y cyd â'r 2 gynnig arall sy'n effeithio ar yr ardal hon. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llanisien |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*

Newidiadau: Symud 426 eiddo o Gymuned Llanisien i Gymuned Llys-faen i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.

Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt:

| | | |
|---|---|---|
| The Rise | 74 o etholwyr | 34 eiddo |
| South Rise | 141 o etholwyr | 77 eiddo |
| North Rise | 76 o etholwyr | 38 eiddo |
| West Rise | 66 o etholwyr | 31 eiddo |
| East Rise | 31 o etholwyr | 13 eiddo |
| Lisvane Road | 160 o etholwyr | 103 eiddo |
| Marion Court | 26 o etholwyr | 24 eiddo |
| Woodside Court | 60 o etholwyr | 42 eiddo |
| Millgate | 13 o etholwyr | 6 eiddo |
| Mill Close | 48 o etholwyr | 31 eiddo |
| Mill Road | 67 o etholwyr | 27 eiddo |

Mae gan Gymuned Llanisien ffiniau corfforol traffordd yr M4 i'r gogledd, Thornhill Road i'r gorllewin a rheilffyrdd i'r de a'r dwyrain. Yr eithriad i hyn yw'r ardal tuag at y gronfa ddŵr.

Cynigir y dylai'r ffiniau corfforol hyn sy'n diffinio Cymuned Llanisien gael eu parhau ar draws yr anghysonder hwn ac felly bod yr eiddo hyn yn symud i Lys-faen.

Cynigir y gallai ardal gorfforol Cronfa Llanisien a Chronfa Llys-faen naill ai adleoli i Gymuned Cyncoed neu y gallai Cronfa Llanisien adleoli i Gymuned Cyncoed a Chronfa Llys-faen i Gymuned Llys-faen. Does gan y cynigydd ddim barn ar ba un fyddai'r mwyaf addas.

Dylid darllen y cynnig hwn ar y cyd â'r 2 gynnig arall sy'n effeithio ar yr ardal hon.

# Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol o fewn Dinas a Sir Caerdydd

**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Pen-y-lan |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud 2,367 eiddo o Gymuned Pen-y-lan i Gymuned Cyncoed i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt:

| | | |
|---|---|---|
| Dosbarth Etholiadol FA i gyd | 1437 o etholwyr | 1177 eiddo |
| Dosbarth Etholiadol FH i gyd | 969 o etholwyr | 496 eiddo |
| Dosbarth Etholiadol FD i gyd | 346 o etholwyr | 456 eiddo |
| Y rhan fwyaf o Ddosbarth Etholiadol FB | 649 o etholwyr | 238 eiddo |

Mae cymuned Pen-y-lan i bob pwrpas wedi'i rhannu'n ddwy gan ffin gorfforol ffordd ddeuol yr A48 Eastern Avenue. Er y cydnabyddwn fod 3 ffordd fynediad ar draws yr A48, nid yw'r gymuned bresennol yn uned gydlynol. Felly cynigir naill ai uno'r eiddo i'r gogledd o'r A48 â Chymuned Cyncoed neu sefydlu cymuned ar wahân ar gyfer yr eiddo hyn. Cynigir y dylid ymgynghori â'r trigolion ynghylch a gaent well cynrychiolaeth drwy fod yn rhan o Gyncoed, Pen-y-lan neu fel cymuned ar wahân.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llys-faen |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud 33 eiddo o Gymuned Llys-faen i Gymuned Llanisien i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt:

| | | |
|---|---|---|
| Caedelyn Court | 19 o etholwyr | 18 eiddo |
| Bryncoed | 10 o etholwyr | 8 eiddo |

Yn ogystal, y 7 eiddo penodol isod:

| | |
|---|---|
| - Holmes View | 2 etholwr |
| - Cotswold | 1 etholwr |
| - The Rangers Bungalow | 1 etholwr |
| - Old Cottage | 0 etholwr |
| - Cherry Orchard Cottage | 1 etholwr |
| - Haul Fryn Cottage | 2 etholwr |

| | |
|---|---|
| - Felindre Fach | 1 etholwr |

Mae’r eiddo hyn wedi’u gwahanu’n gorfforol oddi wrth eu cymuned bresennol Llys-faen gan draffordd yr M4 a rheilffordd. Er bod ffyrdd cysylltu i Lys-faen, maent yn tueddu i edrych tuag at Gymuned Llanisien.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Pentwyn |

*Crynodeb o’r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Adleoli’r ffin bresennol rhwng Cymuned Pentwyn a Chymuned Llanrhymni o’r afon i raniad corfforol yr A48, Eastern Avenue.
Bydd y cynnig hwn yn symud y tir rhwng yr afon a’r A48 i Gymuned Llanrhymni, lle mae’r unig fynedfa gorfforol i’r darn tir hwn. Felly nid yw’n rhan o Gymuned Pentwyn.
Er nad oes datblygiad wedi’i gynnig ar gyfer yr ardal hon, nod y cynnig yw achub y blaen ar broblemau posibl a allai godi gyda threfniadau etholiadol a wardio pe adeiledid tai ar y tir hwn. Nid effeithir ar ddim etholwyr nac eiddo gan y cynnig hwn ar hyn o bryd.

Adolygiad Cymunedol 2013

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Trowbridge |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*

Newidiadau: Symud 117 eiddo yn nosbarth etholiadol SF o Gymuned Trowbridge i Gymuned Tredelerch.

Cyfanswm nifer yr etholwyr ac eiddo yr effeithir arnynt yw 117, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| New Road (Westbourne Court) | 25 o etholwyr | 17 eiddo |
| Newton Road | 15 o etholwyr | 7 eiddo |
| Pwllmawr Cottages | 3 o etholwyr | 2 eiddo |
| Pwllmawr Court | 7 o etholwyr | 4 eiddo |
| The Avenue | 15 o etholwyr | 10 eiddo |
| Wentloog Road | 184 o etholwyr | 77 eiddo |

Mae'r ardal dan sylw wedi'i ffinio ar yr ochr ogleddol gan y rheilffordd ac ar yr ochr ddeheuol gan Fôr Hafren.

Dim ond un ffordd fynediad sydd i mewn i'r ardal o diriogaeth Cyngor Caerdydd, sef trwy gymuned Tredelerch. Felly mae'r ardal dan sylw'n ddaearyddol a chorfforol ar wahân oddi wrth Trowbridge. Gwneir ei threfniadau pleidleisio ar hyn o bryd yn Nhredelerch hefyd, lle ceir yr orsaf bleidleisio agosaf. Felly cynigir y dylid symud yr ardal hon i gymuned Tredelerch.

Adolygiad o Drefniadau Etholiadol a Ffiniau Cymunedol
o fewn Dinas a Sir Caerdydd
**CYNIGION DRAFFT – ATODIAD G**

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Trowbridge |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud holl etholwyr ac eiddo New Road (Westbourne Court), Pwllmawr Cottages, Pwllmawr Court a The Avenue, sydd ar hyn o bryd yng Nghymuned Trowbridge, i Gymuned Tredelerch i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt

| | | |
|---|---|---|
| New Road (Westbourne Court) | 25 o etholwyr | 17 eiddo |
| Pwllmawr Cottages | 3 o etholwyr | 2 eiddo |
| Pwllmawr Court | 7 o etholwyr | 4 eiddo |
| The Avenue | 15 o etholwyr | 10 eiddo |

Mae'r eiddo hyn wedi'u hynysu'n gorfforol oddi wrth eu cymuned bresennol, Trowbridge gan fod yr eiddo o'u cwmpas ar ochr Trowbridge i gyd yn eiddo amhreswyl, sef eiddo stad fasnachu. Mae'r unig eiddo preswyl sy'n gymdogion i Westbourne Court, Pwllmawr Cottage, Pwllmawr Court a The Avenue i gyd yn Nhredelerch. Felly gwasanaethir yr eiddo hyn yn well trwy fod yn rhan o gymuned Tredelerch.

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Y Tyllgoed |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud holl etholwyr ac eiddo Western Avenue Court o Gymuned y Tyllgoed i Gymuned Treganna.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt

| | | |
|---|---|---|
| Western Avenue Court | 4 o etholwyr | 4 eiddo |

Saif Western Avenue Court ar gyffordd tair cymuned, sef y Tyllgoed, Llandaf a Threganna.
Mae ffin bresennol cymunedau'r Tyllgoed a Threganna'n rhedeg ar hyd ffin gorfforol Rhodfa'r Gorllewin, ac eithrio un bloc o eiddo, sef Western Avenue Court.
Cynigir y câi buddiannau a hunaniaeth y trigolion ei gwasanaethu'n well o fewn cymuned Treganna.
Dylid darllen y cynnig hwn ar y cyd â'r 2 gynnig arall sy'n effeithio ar yr ardal hon.

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llandaf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Symud 46 eiddo o Gymuned Llandaf i Gymuned Treganna.<br>Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt<br>Lloyd Avenue 22 o etholwyr 12 eiddo<br>Ely Road (112-136) 28 o etholwyr 14 eiddo<br>Waun Gron Road 35 o etholwyr 20 eiddo<br>(1-21 Annexe)<br>Mae'r ardal hon ar gyffordd tair cymuned, sef y Tyllgoed, Llandaf a Threganna a'i ffin ogleddol yw Rhodfa'r Gorllewin a Waun Gron. Cynigir mai'r priffyrdd hyn ddylai ffurfio ffin y gyffordd 3 cymuned hon, yn hytrach na'r rheilffordd ac Ely Road. Credir mai'r ffyrdd hyn yw prif raniadau corfforol y cymunedau, yn hytrach na ffordd lai Ely Road a'r rheilffordd. Byddai symud yr ardal hon i mewn i Dreganna'n sicrhau dilyniant i ffin bresennol Llandaf/Treganna ar hyd Pencisely Road i mewn i Waun Gron Road, yn hytrach nag i ffordd lai Ely Road.<br>Dylid darllen y cynnig hwn ar y cyd â'r 2 gynnig arall sy'n effeithio ar yr ardal hon. | |

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llandaf |
| *Crynodeb o'r Cyflwyniad:*<br>Newidiadau: Symud y ffin rhwng cymunedau'r Tyllgoed, Llandaf a Threganna i'r ffiniau corfforol mwy rhwng y 3 cymuned hyn. Ar hyn o bryd fydd y cynnig hwn ddim ond yn adleoli'r safle ailgylchu/gwastraff ar Waun Gron Road i Gymuned y Tyllgoed o Gymuned Llandaf. Ar hyn o bryd ni fydd yn effeithio ar unrhyw eiddo preswyl. Er nad oes cynnig ar gyfer newid defnydd ar y safle, pe gwneid un yn y dyfodol, ni theimlir bod trefniadaeth bresennol y cymunedau'n adlewyrchu buddiannau'r ardal hon.<br>Mae'r ardal hon ar gyffordd y tair cymuned, sef y Tyllgoed, Llandaf a Threganna ac mae wedi'i ffinio ar y gogledd a'r dwyrain gan Rodfa'r Gorllewin a Waun-Gron. Cynigir mai'r priffyrdd hyn ddylai ffurfio ffin y gyffordd 3 cymuned hon, yn hytrach na'r rheilffordd ac Ely Road. Credir mai'r ffyrdd hyn yw prif raniadau corfforol y cymunedau, yn hytrach na ffordd lai Ely Road a'r rheilffordd. Credir y byddai symud yr ardal hon i mewn i'r Tyllgoed yn fuddiol i'r tair cymuned dan sylw.<br>Dylid darllen y cynnig hwn ar y cyd â'r 2 gynnig arall sy'n effeithio ar yr ardal hon. | |

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llandaf |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud Penhill Court (The Rise, Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc) o Gymuned Llandaf i Gymuned Glanyrafon er mwyn adlewyrchu lleoliad corfforol yr eiddo'n well.
Er nad effeithir ar ddim etholwyr nac eiddo preswyl gan y cynnig hwn ar hyn o bryd, nod y cynnig hwn yw achub y blaen ar broblemau posibl a allai godi gyda threfniadau etholiadol a wardio yn y dyfodol pe gwneid cais am newid defnydd.

| Gan | Cymuned |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Sain Ffagan |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud 275 eiddo o Gymuned Sain Ffagan i Gymuned Trelái i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt

| | | |
|---|---|---|
| Butterbur Place | 24 o etholwyr | 12 eiddo |
| Celandine Road | 10 o etholwyr | 5 eiddo |
| Crosswells Way | 38 o etholwyr | 23 eiddo |
| Fescue Place | 25 o etholwyr | 13 eiddo |
| Marguerites Way | 147 o etholwyr | 78 eiddo |
| Ramsons Way | 96 o etholwyr | 41 eiddo |
| Vervain Close | 42 o etholwyr | 29 eiddo |
| Whinberry Way | 65 o etholwyr | 43 eiddo |
| Yarrow Close | 51 o etholwyr | 31 eiddo |

Does gan yr ardal dan sylw ddim cysylltiad ffordd uniongyrchol â gweddill ei chymuned bresennol. Daw'r unig ffordd i mewn i'r ardal o gymuned Trelái. Mae'r ysgolion agosaf, y siopau a'r mannau chwarae lleol i gyd yn Nhrelái.
Gan fod yr ardal hon i bob pwrpas wedi'i datgysylltu oddi wrth ei chymuned bresennol, cynigir y gwasanaethir eu buddiannau'n well trwy ddod yn rhan o gymuned Trelái.

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Treganna |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud 278 eiddo o Gymuned Treganna i Gymuned Grangetown i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt:

| | | |
|---|---|---|
| Bartley Wilson Way | 190 o etholwyr | 142 eiddo |
| Dunraven Road | 51 o etholwyr | 31 eiddo |
| Ffordd Fred Keenor | 1 etholwr | 2 eiddo |
| Leckwith Close | 34 o etholwyr | 26 eiddo |
| St Donats Road | 66 o etholwyr | 51 eiddo |
| Newton Road | 26 o etholwyr | 16 eiddo |
| Sloper Road | 51 o etholwyr | 26 eiddo |

Dylid ystyried yr ardal dan sylw'n rhan o gymuned Grangetown gan ei bod wedi'i gwahanu oddi wrth ei chymuned bresennol Treganna gan Leckwith Road, sy'n brif ffordd i mewn i Gaerdydd. Mae wedi'i ffinio ar ddwy ochr arall gan ffordd gyswllt yr A4232 a rheilffordd. Mae'r terfynau hyn yn gwahanu'r ardal oddi wrth Dreganna ac felly cynigir y byddai'n well i'r trigolion petaent yn rhan o gymuned Grangetown.

| **Gan** | **Cymuned** |
|---|---|
| Swyddog Cofrestru Etholiadol | Llanrhymni |

*Crynodeb o'r Cyflwyniad:*
Newidiadau: Symud 37 eiddo o Gymuned Llanrhymni i Gymuned Tredelerch i adlewyrchu hunaniaeth a buddiannau'r trigolion yn well.
Dyma nifer yr etholwyr a'r eiddo yr effeithir arnynt
Heol Casnewydd (odrifau o 693, 695, …, 779A, Tafarn yr Old Cross). Cyfanswm o 61 o etholwyr a 37 eiddo
Mae'r ffin rhwng cymunedau Llanrhymni a Thredelerch ar hyn o bryd yn rhannu Heol Casnewydd fel bod y trigolion mewn tai nesaf at ei gilydd wedi'u cynrychioli gan wahanol gymunedau ac yn pleidleisio mewn gwahanol orsafoedd pleidleisio.
Er mwyn gwella cynrychiolaeth etholiadol cynigir newid ffin y gymuned fel bod pob eiddo odrif rhwng Rumney Hill Gardens a thafarn yr Old Cross wedi'u cynrychioli gan yr un gymuned, Tredelerch.